

amserbeibl

Astudiaethau Beiblaidd – Safon 4

Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oedran Dyddiad geni

Enw

Cyfeiriad

Enw Arweinydd y Dosbarth

Astudiaethau Beiblaidd o'r Efengylau

Cofiwch mai un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th



DARLLENWCH
Ioan 2: 1-11



ADNODAU
ALLWEDDOL
Ioan 14: 15
Ioan 15: 14

Astudiaeth I Gwyrthiau – Troi'r Dŵr yn Win

Awgrymiadau am Adnodaau Eraill i'w Darllen

Salm 86: 1-12 Luc 11: 1-13 Ioan 15: 9-14

Hon oedd gwyrth gyntaf yr Arglywydd Iesu. Efengyl Ioan yw'r unig un sy'n adrodd yr hanes. Roedd Iesu, ei fam a'i ddisgyblion i gyd wedi'u gwahodd i briodas ond dydyn ni ddim yn cael gwybod priodas pwy oedd hi.



CROESAIR

Cliwiau ar Draws

- Beth oedd yn digwydd yng Nghhana, Galilea?
- Beth oedd yn brin yn y briodas?
- Roedd y llestri dŵr wedi'u gwneud o hwn.
- Dyweddodd Iesu wrth ei fam "Nid yw fy ___ i wedi dod eto".

Cliwiau i lawr

- Beth yw'r enw ar ddyn sy'n priodi?
- Beth oedd y llestri mawr yn ei ddal?
- Roedd pobl arfer rhoi'r gwin da gyntaf ac wedyn y gwin _____.
- Faint o llestri dŵr oedd yna?
- Mae'r wyrth hon yn dangos (amlygu) _____ lesu.



9

C Chwiliwch am yr adnod lle mae Mair yn siarad â'r gwasanaethyddion (y bobl oedd yn gweini yn y briodas) ac ysgrifennwch beth a ddywedodd.



2

C Os yw a=1, b=2, c=3, ch=4 ac ati, ceisiwch ddatrys y cod ac ysgrifennu'r gair. Dylem ninnau hefyd wneud beth bynnag y mae lesu'n gofyn i ni ei wneud. Pan wnawn ni hynny, rydyn ni'n:-

26/8/26/6 _____ iddo Ef.

I

Rydyn ni'n dangos ein bod yn caru Duw trwy fod yn uffff iddo. Os nad ydyn ni'n ceisio bod yn uffff i Dduw, rydyn ni'n dangos nad ydyn ni'n ei garu. Er mwyn dilyn lesu Grist a bod yn ffrindiau iddo, mae'n rhaid i ni drystio ynddo fel ein Gwareddwr a bod yn uffff iddo.

C Ysgrifennwch y ddwy Adnod Allweddol a THANLINELLU y gair allweddol yn y ddwy adnod.


4

C Pwy sy'n siarad yn y ddwy adnod hyn?

I

Sut rydyn ni'n gwybod beth mae Duw eisiau i ni ei wneud?

I. Trwy ddarllen y Beibl. Y Beibl yw Gair Duw i ni.



C Beth y mae Salm 119: 105 yn ei ddweud?


2

2. Trwy weddio.



Gweddio yw siarad â'n Tad yn y Nefoedd.

Mae Duw yn siarad â ni trwy'r Beibl. Rydyn ni'n siarad ag ef wrth weddio a sôn wrtho am ein problemau a'n hanghenion. Mae siarad 'dwy ffordd' fel hyn yn bwysig iawn ym mywyd y Cristion. Fel Cristnogion, allwn ni ddim gofeithio uffff hau i Dduw yn ein bywydau os nad ydym yn barod i ddarllen y Beibl bob dydd a gweddio'n rheolaidd, fel y gallwn wybod beth y mae Duw'n dymuno i ni ei wneud.



C Ysgrifennwch ran gyntaf Salm 86: 11 a gwnewch hi'n weddi i chi ar gyfer yr astudiaeth hon.

I



DARLLENWCH
Ioan 4: 43-54



ADNODAU
ALLWEDDOL
Actau 16: 31
Rhufeiniaid 10: 9


Astudiaeth 2 Gwyrthiau - Iacháu'r Bachgen



Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen

Ioan 3: 14-18 a 36 I Ioan 5: 1-5 a 10-14

Yn y Darlleniad o'r Beibl, daeth Iesu yn ôl i'r dref lle gwnaeth ei wyrth gyntaf. Mae'r dref hon mewn ardal o'r enw Galilea yng ngogledd Israel. I'r de o Galilea mae Samaria ac i'r de o Samaria mae Jwdea, lle mae trefi a dinasoedd fel Bethlehem, Jericho, Bethania a'r brifddinas, Jerwsalem.



C Nodwch y mannau a ganlyn ar y map:-

1. Enw'r llyn.
2. Enw'r dref lle gwnaeth Iesu ei wyrth gyntaf.
3. Enw'r dref lle'r oedd y swyddog yn byw.
4. Enw'r dref lle cafodd Iesu ei fagu. (Gweler Luc 4: 16)
5. Enw'r afon lle cafodd Iesu ei feddyddio. (Gweler Mathew 3: 13)
6. Enw'r ddinas lle cynhalwyd gŵyl y Pasg.
7. Enw'r ardal yr oedd Iesu newydd ddod ohoi.



C Ysgrifennwch atebion y cwestiynau isod yn y grid.

I	<table border="1"><tr><td></td><td></td><td></td><td></td><td></td><td></td></tr><tr><td>2</td><td></td><td></td><td></td><td></td><td></td><td></td></tr><tr><td>3</td><td></td><td></td><td></td><td></td><td></td><td></td></tr><tr><td>4</td><td></td><td></td><td></td><td></td><td></td><td></td></tr><tr><td>5</td><td></td><td></td><td></td><td></td><td></td><td></td></tr></table>							2							3							4							5						
2																																			
3																																			
4																																			
5																																			

1. I ble'r aeth lesu?
- 2 a 3. Dywedodd lesu wrth y swyddog "Heb ichwi weld _____ a
rhyfeddodau, ni _____ chwi byth."
4. Beth ddywedodd lesu wrth y swyddog am ei wneud ar ôl iddo ddweud y byddai'r plentyn yn byw? "Dos _____."
5. Am faint o'r gloch yr oedd y bachgen wedi dechrau gwella?

5

I

C Mae'ch atebion wedi'u hysgrifennu ar draws y grid. Edrychwr i lawr y grid i weld yr ateb i'r cwestiwn isod a'i liwio: Beth wnaeth lesu i'r bachgen sâl?



Erbyn diwedd y stori, yn ogystal â chredu'r geiriau roedd lesu wedi'u dweud wrtho, roedd y swyddog yn credu mai lesu oedd y Meseia. Yn ogystal â gwella salwch ac ati, mae lesu'n gallu ein gwella yn ysbrydol (maddau ein pechodau a gwneud pethau'n iawn rhngom ni a Duw).

C Esboniwr YN EICH GEIRIAU EICH HUNAIN pam y credodd y swyddog yn yr Arglywydd lesu.

2

C Ysgrifennwch eiriau Actau 16:31. (Un o'r Adnodau Allweddol)

2

Mae'r Adnod Allweddol hon yn dangos mai'r unig ffordd i Dduw ein hiacháu ni a maddau'n pechodau yw i ni gredu yn lesu Grist. Allwn ni ddim ennill iachawdwriaeth trwy fyw yn dda. Gwnaeth yr Arglywydd lesu y cyfan trwy farw ar y groes. Y cwbwl y mae'n rhaid i ni ei wneud yw credu!

C Ysgrifennwch yr Adnod Allweddol arall a thanlinellu beth y mae'n rhaid i ni ei gredu er mwyn cael ein hachub.

3

Ydych chi wedi credu yn yr Arglywydd lesu Grist? Ydych chi wedi dweud wrth rywun eich bod yn credu ynddo Ef?



DARLLENWCH
Marc 10: 46-52



ADNODAU
ALLWEDDOL
Marc 10: 52

Astudiaeth 3 Gwyrthiau – Bartimeus Ddall

Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen

Mathew 4: 18-22 Effesiad 6: 10-18 Colosiad 3: 8-17

Yn amser Iesu Grist, nid oedd y wladwriaeth yn rhoi help i bobl ddall; ychydig o bobl oedd yn poeni amdanyst ac roedd rhaid iddynt gardota er mwyn byw. Dylem ni fod yn ddiolchgar am gael gweld a dylem ofalu am bobl sy'n ddall neu ag anableddau eraill.

Dyma fap o ran o Jwdea, ger y Môr Marw.

Does dim byd yn gallu byw yn y Môr Marw gan ei fod mor hallt.

C Nodwch ar y map:-

1. Enw'r afon. (Darllenwch y wers o'r blaen – yr un afon yw hi)

1. _____

2. Enw'r dref lle gwnaeth Iesu ei wyrth.

2. _____

3. Prifddinas Jwdea.

3. _____


4. Enw'r dref lle'r oedd Mair, Martha a Lasarus yn byw. (Gweler Ioan 11: 1)

4. _____

a Lasarus yn byw. (Gweler Ioan 11: 1)

5. _____

5. Enw'r dref lle cafodd Iesu ei eni.



5

CHWILAIR

Rhowch gylch o gwmpas yr atebion i'r cliwiau isod yn y Chwilair a'u hysgrifennu isod. Maen nhw wedi'u hysgrifennu ar draws, i lawr, i fyny, ar letraws, am ymlaen a go chwith.

1. Enw tad Bartimeus.
2. Beth oedd Bartimeus yn gorfod ei wneud i gael arian?
Roedd yn gorfod
3. Galwodd Bartimeus Iesu yn Fab
4. Dywedodd Iesu wrth Bartimeus bod ei wedi'i iacháu.
5. Ar unwaith, roedd Bartimeus yn gallu gweld a dechreuodd Iesu.

A	T	O	D	R	A	C	A
C	I	P	A	I	R	P	C
C	M	A	F	W	P	O	D
E	E	N	Y	L	N	A	G
R	U	A	D	Y	F	E	T
E	S	P	O	R	F	E	I

5


C Chwiliwch am Salm 145: 18 ac ysgrifennu'r adnod.

2

Roedd hyn yn sicr yn wir am Bartimeus. Gall fod yn wir amdanom ninnau hefyd!
Clywodd lesu Bartimeus a galwodd amdan.

C Ysgrifennwch y cwestiwn a ofynnodd yr Arglwydd lesu a'r ateb a roddodd Bartimeus.

Gofynnodd lesu



Atebodd Bartimeus

2

Roedd lesu'n falch fod Bartimeus mor benderfynol o'i gyrraedd. Yr oedd ei ateb yn profi bod Bartimeus yn gwirioneddol gredu y gallai lesu roi ei olwg iddo.

C Ysgrifennwch yr Adnod Allweddol.

2

Dyna wahaniaeth a wnaeth yr Arglwydd lesu i Bartimeus. Roedd ei dywyllwch wedi mynd!
Roedd yn gallu gweld!

C Chwiliwch am Ioan 8: 12 a'i hysgrifennu isod, a chewch wybod am y bywyd newydd a gawn os dilynwn yr Arglwydd lesu.

2

C Beth a adawodd Bartimeus ar ôl pan ddaeth at lesu?

--

1

Gallem ddweud fod mantell (clogyn) Bartimeus yn cynrychioli ei hen ffordd o fyw. Pan fyddwn yn dilyn lesu Grist mae'n rhaid i ni adael ein hen ffordd o fyw a'i harferion a'i syniadau pechadurus ar ôl, a dilyn ei ddyseidiaeth a'i esiampl Ef.

C Ysgrifennwch YN EICH GEIRIAU EICH HUNAN un rheswm pam y gwnaeth Bartimeus ddilyn lesu.

1

DARLLENWCH
Luc 17: 11-19ADNODAU
ALLWEDDOL
Effesiad 2: 8 a 9


Astudiaeth 4 Gwyrthiau – Deg o Wahangleifion

Awgrymiadau am Adnoda Eraill i'w Darllen

2 Brenhinoedd 5 Marc 1: 40-45 Philipiaid 4: 6 and 7

Roedd sôn am yr Arglwydd lesu wedi cyrraedd yn bell. Roedd y dynion hyn - deg o wahangleifion - wedi clywed amdano er eu bod yn byw y tu allan i'w pentref, wedi'u gwahanu oddi wrth weddill y bobl. Roedd ganddynt glefyd heintus iawn a, gan amlaf, nid oedd modd ei wella. Fe wnaethon nhw sefyll bellter oddi wrth lesu a gweiddi'n uchel arno.

C Beth ddywedon nhw?



C Beth oedd ateb Iesu?

2

2

Roedd y deg yn gwybod beth oedd ystyr hynny! Dim ond yr offeiriad oedd yn cael ysgrifennu'r dystysgrif i ddweud eu bod wedi gwella ac nad oeddent yn dioddef o'r gwahanglwyr bellach. Wedyn, byddent yn cael mynd yn ôl i'w cartrefi, at eu teuluoedd i fyw bywyd arferol a chael gwaith. Felly i ffwrdd â nhw ac, ar y ffordd, fe welsant fod rhywbeth anhygoel wedi digwydd iddynt.

C Beth oedd wedi digwydd?

--

I

Mae'n siŵr eu bod nhw i gyd wedi sylweddoli mai lesu oedd wedi gwneud hyn iddynt ond y cyfan a wnaeth naw ohonynt oedd cario ymlaen ar eu ffordd.

C Soniwrch yn fanwl am yr hyn a wnaeth y llall.

3

C I ba genedl roedd y dyn hwn yn perthyn?

--

I

Efallai eich bod yn meddwl tybed pam y mae'n sôn am genedl y dyn! Doedd yr Iddewon a chenedl y dyn hwn ddim yn cytuno – roedden nhw'n elynion! Er hynny, hwn oedd y dyn a ddaeth yn ôl i ddiolch i'r Arglwydd lesu a oedd yn Idde.

Yna, holodd lesu lle'r oedd y naw arall a pham mai dim ond un a ddaeth yn ôl i ddiolch ac i foli Duw. Mae'n siŵr fod Duw yn gofyn yr un cwestiwn yn aml heddiw. Ychydig iawn o bobl sy'n cofio diolch i Dduw a'i foli am y cyfan y mae'n ei wneud drostynt a'r cyfan y mae'n ei roi iddynt.

C Ysgrifennwch ddu o'r pethau y mae Duw wedi'u rhoi i chi ac y gallwch fod yn ddiolchgar amdanyst

1


2

2

C Beth oedd wedi iacháu'r dyn?

1

Cafodd y dyn â'r gwahanglwyf ei wella oherwydd ei ffydd. Gallwn ninnau gael ein gwella o glefyd pechod trwy ffydd yn yr Arglwydd lesu. Mae hyn yn golygu y gellir ein hachub ni rhag cael ein cosbi am ein pechod pan gredwn fod lesu wedi cael ei gosbi drosom ni ar y groes.



C Ysgrifennwch yr Adnod Allweddol.

3

C Yn yr Adnod Allweddol:-

1. Rhowch gylch o gwmpas y gair sy'n dangos mai cariad Duw sy'n ein hachub ni.
2. Tanlinellwch y gair sy'n dweud beth y mae'n rhaid i ni ei gael er mwyn cael ein hachub.
3. Beth na fydd yn ein hachub? Rhowch flocs o gwmpas y gair hwn.

3

C Pa wersi pwysig rydych chi wedi'u dysgu o'r pedair astudiaeth ar gyfer y mis hwn?

2

cyfanswm

Marciau

(i'w nodi gan yr arweinydd)

Cyfanswm

Cyfanswm Llawn

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services, P.O. Box 42, Penarth, CF64 3YD.
Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar www.biblelinkit.com neu ffôn i 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157

Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru.

Addasiadau Cymraeg gan Siân Roberts a Linda Lockley. Golygyd gan Siân Roberts. Cysodwyd gan Ynyr Roberts.
Cyfres lawn o wersi dros dair blynedd i rai 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o www.amserbeibl.org

Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhodion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag:
Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Powys LL53 6SH ☎ 01766 819120